Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Y Strade
# Heol Sandy
# Llanelli
# Carmarthenshire
# SA15 4DL

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2012**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymunedol Gymraeg yw Ysgol Y Strade sy'n darparu addysg ar gyfer bechgyn a merched 11-18 oed. Lleolir Ysgol Y Strade yn agos at yr arfordir, ar ochr orllewinol Llanelli. Mae'r ysgol wedi tyfu'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf a nawr mae ganddi 1,043 o ddisgyblion gyda 206 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae dalgylch yr ysgol yn ymestyn ar hyd arfordir de-ddwyrain Sir Gaerfyrddin, o'r Fforest a'r Hendy yn y dwyrain i Gydweli yn y gorllewin. Mae un ar ddeg o ysgolion cynradd yn bwydo Ysgol Y Strade. Daw'r mwyafrif o ddisgyblion o Lanelli a'r pentrefi cyfagos, gyda nifer sylweddol yn dod o'r wardiau difreintiedig yn nwyrain y dref. Mae naw y cant o'r disgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.4%.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu lawn. Mae tua dau y cant o'r disgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Gofelir am chwe disgybl gan yr awdurdod lleol. Saesneg yw iaith gartref tua 80% o'r disgyblion ond gall yr holl ddisgyblion siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf. Addysgir yn yr ysgol yn bennaf trwy'r Gymraeg a chynigir mathemateg a gwyddoniaeth o flwyddyn 9 ymlaen trwy'r Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2009, mae dau ddirprwy a dau bennaeth cynorthwyol wedi ymuno â hi i gyflawni'r uwch dîm arwain.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Y Strade yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,096 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin yw £7,322 a'r lleiafswm yw £4,096. Mae Ysgol Gyfun Y Strade yn safle 14eg o'r 14 ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae nodweddion da yr ysgol yn cynnwys:

- perfformiad da iawn gan ddisgyblion yn y chweched dosbarth;
- cyflawniad cyson uchel yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4;
- yr amrediad eang o weithgareddau diwylliannol a chwaraeon;
- ymddygiad ardderchog y disgyblion;
- perthynas weithio dda iawn rhwng y disgyblion a'r athrawon;
- partneriaethau effeithiol sydd wedi cynyddu'r dewis o gyrsiau i ddisgyblion; a
- threfniadau trosglwyddo effeithiol.

Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- yn y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg, wedi disgyn yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim;
- mae perfformiad mewn dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau'n is nag ydyw mewn ysgolion tebyg;
- mewn lleiafrif o wersi nid yw'r addysgu'n cynnig digon o her er mwyn sicrhau cynnydd priodol;
- mae ansawdd y marcio ac adborth i ddisgyblion yn amrywio'n ormodol, rhwng ac o fewn adrannau; ac
- nid yw'r strategaethau i ddilyn i fyny ar ganfyddiadau'r sustem tracio wedi cael digon o effaith ar gynnal neu wella safonau.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae gan yr ysgol y sustemau priodol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant;
- ceir addysgu effeithiol mewn llawer o wersi;
- y ffocws cryf ar ddatblygu gwybodaeth a medrau addysgu athrawon o fewn yr ysgol;
- mae patrwm o welliant ym mhresenoldeb y disgyblion;
- mae hanes o gyflawniad uchel yn y chweched dosbarth ac mewn safonau Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4; a
- cheir strwythur rheoli clir, â'r rhan fwyaf y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda.

Fodd bynnag:

- nid ydyw gweithgareddau hunanarfarnu wedi cael digon o effaith ar gynnal safonau mewn dangosyddion pwysig, neu ansawdd yr asesu gan athrawon;
- nid yw adroddiad hunanarfarnu yr ysgol gyfan yn ddigon hunan beirniadol ac nid yw'n uwch oleuo rhai meysydd pwysig sydd angen eu gwella;
- nid yw lleiafrif y targedau yn y cynlluniau datblygu adrannol yn ddigon heriol i symbylu gwelliant; a
- nid yw llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn ddigonol ar faterion sy'n ymwneud â safonau.

## Argymhellion

R1 codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn arbennig mewn Saesneg a mathemateg;

R2 gwella ansawdd a chysondeb marcio ac adborth i ddisgyblion;

R3 gwella effeithiolrwydd y gweithgarwch dilynol ar ganfyddiadau'r sustem dracio;

R4 cryfhau rôl y corff llywodraethol, gyda ffocws clir ar herio'r ysgol fel cyfaill beirniadol; a

R5 chynyddu miniogrwydd, trylwyredd ac effaith y prosesau hunanarfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn y dangosydd sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'n debyg i'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw perfformiad mewn Saesneg a mathemateg, yn enwedig yn y lefelau uwch, mor gryf ag ydyw mewn ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 4, rhwng 2008 a 2010, roedd perfformiad mewn dangosyddion yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn 2011 gostyngodd perfformiad yn y dangosyddion hyn gan osod yr ysgol yn yr hanner gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae data 2012 heb ei wirio yn dangos gostyngiad eto yn y dangosydd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn perfformiad mewn mathemateg.

Mae perfformiad mewn dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau'n sylweddol is nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, mewn dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched yn y dangosyddion hyn, yn bennaf oherwydd perfformiad is mewn Cymraeg neu Saesneg.

Yn y chweched dosbarth, mae disgyblion yn perfformio'n dda iawn.

Nid yw disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal ag ydyn nhw mewn ysgolion tebyg. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni yn unol â'u galluoedd.

Ni adawodd unrhyw ddisgybl yr ysgol heb gymhwyster yn y pedair blynedd diwethaf ac mae'r rhan fwyaf yn aros mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed. Yn 2012, ni adroddwyd bod unrhyw ddisgyblion yr ysgol yn 16 oed ddim mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n galed yn eu gwersi ac yn ymateb yn bositif i'w hathrawon. Gall llawer o ddisgyblion ddwyn i gôf ddysgu blaenorol yn gywir ac adeiladu ar hyn i ehangu eu dealltwriaeth o gysyniadau a gwybodaeth bynciol yn effeithiol. Mewn llawer o wersi mae disgyblion yn defnyddio eu medrau dadansoddol yn fedrus wrth werthuso syniadau eu hunain a'u cyfoedion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau athrawon ac yn ymateb yn bositif i syniadau ei gilydd wrth drafod mewn parau a grwpiau bach. Mewn lleiafrif o wersi nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, yn bennaf oherwydd ddiffyg her. Yn y gwersi hyn, ceir ymateb goddefol gan y disgyblion sy'n arwain at waith heb ddigon o fanylder na dyfnder.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion afael da iawn ar yr iaith Gymraeg. Gall rhan fwyaf o'r disgyblion fynegi barn yn glir ac yn hyderus ar lafar. Mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu medrau meddwl a llafar wrth ymgymryd â thrafodaethau estynedig am syniadau cymhleth. Gall y disgyblion mwyaf abl ddefnyddio geirfa gyfoethog er mwyn mynegi syniadau soffistigedig.

Mewn llawer o wersi, darllena ddisgyblion yn rhugl gyda mynegiant priodol. Yn y gwersi hyn, gall ddisgyblion echdynnu gwybodaeth briodol o destunau a'u ddefnyddio'n bwrpasol i ymestyn eu dysgu. Mae'r ychydig ddisgyblion sy'n wynebu'r her fwyaf o ran eu darllen ym Mlwyddyn 7 yn gwneud cynnydd da mewn grwpiau ymyrraeth.

Mae medrau dwyieithog y disgyblion yn nodwedd gref iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ar lafar ac yn eu medrau darllen ac ysgrifennu wrth weithio trwy gyfrwng y Saesneg. Mewn llawer o wersi mae medrau dwyieithog y disgyblion yn atgyfnerthu eu dysgu'n effeithiol.

O fewn lleiafrif o wersi lle ceir cynnydd da iawn, mae disgyblion yn ymgymryd â heriau gyda brwdfrydedd ac yn datrys problemau trwy gydweithio cynhyrchiol. Yn y gwersi hyn, maen nhw'n gwerthuso gwaith ei gilydd yn gywir a thrwy'r broses hon yn gwneud cynnydd da yn eu medrau meddwl a'u dealltwriaeth bynciol.

Yn y mwyafrif o bynciau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran cywirdeb eu sillafu a'u dealltwriaeth o reolau gramadeg ac atalnodi. Yn y pynciau hyn maen nhw'n cynhyrchu ystod eang o waith estynedig o ansawdd uchel. Fodd bynnag mewn lleiafrif o bynciau, mae'r ystod o fathau ysgrifennu'n rhy gul ac mae gorddibynnu ar daflenni gwaith yn cyfyngu eu datblygiad wrth ysgrifennu yn estynedig. Yn y pynciau hyn nid yw'r disgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig at wahanol bwrpasau'n ddigon aml.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan frwd mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol, er enghraifft mewn cystadlaethau eisteddfod yr Urdd a chyngherddau'r ysgol. Manteisia llawer y disgyblion ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn tîmau chwaraeon ac ystod eang o weithgareddau hybu ffitrwydd. Teimla llawer o'r disgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu'n effeithiol am fywyd a bwyta'n iach.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol ymysg y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim ond yn unol â disgwyliadau o ddata prydau am ddim.

Mae ymddygiad y disgyblion mewn gwersi ac ar safle'r ysgol yn ardderchog ac mae cyfraddau gwaharddiad yn isel iawn. Mae bron pob un yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymroi i'w gwaith yn syth. Medda rhan fwyaf o'r disgyblion ar y medrau i'w paratoi ar gyfer bywyd tu hwnt i'r ysgol neu'r cam nesaf o'u dysgu.

Mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn frwdfrydig. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 10 yn cefnogi disgyblion Blwyddyn 7 yn effeithiol iawn yn y cynllun mentora cyfoedion. Dangosa'r disgyblion barch a chwrteisi tuag at eu cyd-ddisgyblion ac oedolion.

Mae cyngor yr ysgol yn cymryd rhan flaengar yng ngwaith yr ysgol. Maent wedi cael dylanwad positif ar ystod eang o weithgareddau'r ysgol gan gynnwys mynegi barn adeiladol ar ansawdd yr addysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Darpara'r ysgol cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu yn llawn ofynion statudol ac anghenion yr holl ddysgwyr. Rhoddir amser priodol i ymdrin â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Ceir ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4. Cynigia'r ysgol gyrsiau diddorol ac anghyffredin, er enghraifft y cwrs ffasiwn i fyfyrwyr y chweched dosbarth. Mae hyn yn nodwedd gref.

Cynllunia'r ysgol yn effeithiol ar gyfer sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ym mhob pwnc. Defnyddir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae'r ystod eang o weithgareddau trawsgwricwlaidd ac allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn hybu datblygiad eu medrau allweddol ehangach yn llwyddiannus iawn.

Mae rhaglen benodol ar gyfer codi safonau llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol yng nghyfnod allweddol 3 o ran codi safonau darllen. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer gwella llythrennedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 wedi cael amser digonol i gael effaith ar safonau hyd yn hyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn elfen gref o waith yr ysgol. Ceir rhaglen gyfoethog iawn o weithgareddau allgyrsiol sy'n trochi'r disgyblion yn y diwylliant Cymreig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol. Gweithia'r grŵp eco yn strategol i ymledu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Defnyddia'r ysgol ei chysylltiadau rhyngwladol yn bwrpasol i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion ynghylch dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan bron bob un o'r athrawon berthynas waith gadarnhaol gyda disgyblion. Medda bron bob un o'r athrawon ar wybodaeth bynciol gadarn ac mae llawer ohonynt yn dangos lefel uchel o frwdfrydedd wrth addysgu. Mewn lleiafrif o wersi, gwelwyd amrywiaeth o strategaethau addysgu dychmygus a chreadigol. Yn y gwersi

hyn mae cynllunio crefftus yn sicrhau her gynyddol i gymell cynnydd da iawn. Yn ogystal, llwydda'r athrawon, yn y gwersi hyn, i hybu dysgu annibynnol yn effeithiol iawn.

Yn y mwyafrif o wersi, defnyddia'r athrawon adnoddau cyfoes a pherthnasol yn llwyddiannus er mwyn ysgogi disgyblion. Mae llawer o athrawon yn trefnu gweithgareddau addas sy'n cymell y disgyblion i gydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Mae bron pob un o'r athrawon yn fodelau iaith da. Mewn llawer o wersi mae athrawon yn holi'r disgyblion yn dreiddgar er mwyn profi ac ehangu ar ddealltwriaeth y disgyblion. Mae cynorthwywyr dosbarth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr wrth sicrhau cynnydd y disgyblion y maent yn eu cynorthwyo.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi nid yw'r addysgu'n cynnig digon o her er mwyn sicrhau cynnydd priodol. Yn ogystal, nid ydy'r athrawon yn cwestiynu'r disgyblion yn ddigon effeithiol, ceir diffyg amrywiaeth yn y dulliau addysgu ac mae symudiad rhy araf i'r wers.

Mae mwyafrif yr athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae ansawdd y marcio yn amrywio'n ormodol. Mae lleiafrif yr athrawon yn nodi sylwadau adeiladol iawn ar waith disgyblion sy'n eu cynorthwyo i wneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn rhoi cyfarwyddyd sy'n ddigon clir i ddisgyblion wella ansawdd gwaith eu hunain. Caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol i asesu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion mewn tua hanner y gwersi.

Mae'r adroddiadau i rieni yn darparu gwybodaeth briodol ar gynnydd, ymdrech, ymddygiad ac agwedd at y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw sylwadau athrawon mewn ychydig o bynciau yn ddigon manwl neu benodol.

Mae gan yr ysgol sustem tracio cynnydd drylwyr sy'n caniatáu monitro cynnydd grwpiau o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau i ddilyn i fyny ar ganfyddiadau'r monitro hwn wedi cael digon o effaith ar safonau mewn meysydd pwysig.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r gwaith yn cael ei gydlynu'n fedrus i sicrhau ymwybyddiaeth uchel iawn gan ddisgyblion o sut i fyw yn iach. Mae gan yr ysgol system fugeiliol effeithiol a defnyddir amrywiaeth sylweddol o asiantaethau i sicrhau cymorth gwerthfawr i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn delio'n effeithiol iawn â'r achosion prin o fwlio.

Mae uned gynhwysiad yr ysgol, sy'n cynnwys yr Hafan a'r Encil, yn cynnig darpariaeth fuddiol iawn ar gyfer y disgyblion ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol.

Mae profiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r cynllun mentora cyfoedion yn gymorth i ddisgyblion Blwyddyn 7 ymgartrefu yn yr ysgol.

Rhoddir cyngor a chyfarwyddyd defnyddiol iawn i ddisgyblion wrth ddewis cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol. Mae gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae gan yr ysgol gynlluniau trylwyr er mwyn sicrhau strategaethau cynnydd disgyblion ag anghenion ychwanegol. Caiff y rhieni fewnbwn addas i'r cynlluniau hyn. Fodd bynnag nid yw'r mwyafrif yn cael eu defnyddio'n ddigon cyson o fewn y gwersi prif ffrwd. Mae'r gefnogaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dwys yn effeithiol iawn.

Mae gan yr ysgol strategaeth effeithiol i sicrhau cynnydd da i ddisgyblion sydd â medrau darllen isel. Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi sefydlu strategaeth i ymestyn y disgyblion mwyaf abl a thalentog ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos sydd yn hybu cydweithio effeithiol o fewn cymdeithas gynhaliol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn llwyddiannus, ac yn gymuned gynhwysol. Gweithredir polisïau sy'n parchu hawl unigolyn a phwysleisir cydraddoldeb ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol iawn wrth ddigoni anghenion disgyblion gydag anableddau ac anawsterau dysgu dwys a chaiff yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cwricwlwm. Mae'r staff a disgyblion yn dangos parch a chonsyrn amlwg tuag at eraill.

Bu gwelliannau sylweddol i adeiladau'r ysgol ers yr arolygiad diwethaf. Mae hyn wedi cael effaith fuddiol ar yr adrannau anghenion ychwanegol, cerdd a drama fel rhan o gynlluniau hirdymor i ddatblygu'r safle ymhellach. Ceir arddangosfeydd atyniadol o waith y disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth sy'n dathlu llwyddiannau ac yn creu amgylchedd symbylus. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n daclus ac yn gyffredinol, mae gan yr ysgol adnoddau priodol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad clir i'r ysgol drwy sefydlu a chynnal gweithdrefnau gweinyddol trefnus a strwythur rheolaethol perthnasol. Mae ei weledigaeth yn gosod blaenoriaeth amlwg i gyfoethogi profiadau disgyblion a chefnogi datblygiad proffesiynol y staff. Ceir cyfleoedd addas i athrawon unigol ddatblygu eu profiad ac i wneud cyfraniad strategol i waith a bywyd yr ysgol drwy ymuno â'r uwch dîm arwain.

Mae'r uwch dîm arwain a rheolwyr canol yn gweithredu eu dyletswyddau yn gydwybodol ac yn datblygu eu dealltwriaeth o feysydd i'w gwella o fewn yr ysgol yn briodol. Defnyddiant amrywiaeth o ddata i osod targedau ac i fonitro perfformiad yr ysgol. Mae'r broses o reoli perfformiad wedi ei threfnu'n dda ac yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus yn ôl amserlen glir. Mae gweithdrefnau i gryfhau atebolrwydd unigolion yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid ydyw'r cyfundrefnau hyn wedi cael digon o effaith ar safonau mewn meysydd pwysig, er enghraifft yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg a'r trothwy lefel 2.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol i ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, ac yn arbennig wrth hybu Cymreictod, lles y disgyblion a llwybrau dysgu 14-19.

Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio yn briodol ac mae swydd ddisgrifiadau'r staff wedi eu diweddaru i adlewyrchu datblygiadau o fewn yr ysgol, a pholisïau cenedlaethol a lleol.

Trefnir cyfres o gyfarfodydd pwrpasol a rheolaidd i athrawon a rheolwyr. Maent yn fforwm effeithiol i drafod gwaith, a chytuno ar bwyntiau gweithredu. Mae'r cysylltiad rhwng aelodau o'r uwch dim arwain ac adrannau unigol yn hybu cyfathrebu effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r uwch dîm arwain mewn lleiafrif o achosion yn gosod disgwyliadau digon uchel ar adrannau ar gyfer gwella safonau.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n ymwybodol o berfformiad yr ysgol drwy dderbyn data ac adroddiadau o ansawdd priodol gan y pennaeth ac athrawon eraill. Maent yn ymwybodol o'r agweddau cyffredinol sydd angen eu blaenoriaethu ac yn cefnogi'r ysgol yn briodol. Er hyn, nid yw llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn ddigonol ar faterion sy'n ymwneud â safonau. Mae gan y llywodraethwyr gysylltiadau priodol ag adrannau unigol ond nid ydynt yn defnyddio data'n ddigon effeithiol er mwyn eu herio i'w gwella safonau. Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r rhieni yn union â'r gofynion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol wedi trefnu sustemau priodol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r ysgol yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau gwersi, arolygon disgyblion a rhieni a chraffu ar waith disgyblion mewn ffordd systematig. Fodd bynnag, nid oes gan uwch reolwyr ddarlun digon cywir o gryderau a meysydd i'w gwella o fewn addysgu. Mae gweithgareddau hunanarfarnu wedi cael effaith gadarnhaol ar feysydd megis cynnydd disgyblion yn y chweched dosbarth a chyflawniad y disgyblion yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau hyn wedi cael digon o effaith ar gynnal safonau mewn dangosyddion pwysig, er enghraifft canlyniadau mathemateg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 4, neu ansawdd yr asesu.

Mae'r adroddiad ysgol gyfan yn cynnwys dadansoddiad manwl iawn o ddata perfformiad sy'n amlygu cryfderau'r ysgol yn glir. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r prosesau ar waith yn yr ysgol yn dda ac yn adnabod ychydig feysydd i'w gwella. Fodd bynnag nid yw'r adroddiad yn ddigon hunan feirniadol ac nid yw'n amlygu ychydig meysydd pwysig sydd angen eu gwella, er enghraifft perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a chyflawniad y disgyblion mewn Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r rhan fwyaf o reolwyr canol yn darparu dadansoddiad trylwyr o ddeilliannau arholiadau ac asesiadau gan athrawon yn eu hadroddiad hunanarfarnu. Maent yn cyfeirio'n briodol at berfformiad blaenorol disgyblion ond nid yw lleiafrif yr adrannau'n talu digon o sylw i ddata cymharol. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y targedau yn y cynlluniau datblygu adrannol yn ddigon heriol i symbylu gwelliant. Ceir disgrifiadau manwl o brosesau adrannol ym mhob adroddiad hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid

yw’r lleiafrif yn cyfeirio’n ddigonol at dystiolaeth uniongyrchol o graffu ar waith disgyblion i adnabod meysydd pwysig i’w gwella, megis adborth i ddisgyblion.

Mae’r cynllun gwella ysgol yn cynnwys camau addas i wella deilliannau ar gyfer disgyblion.  Ceir cysylltiad clir rhwng yr adroddiadau hunanarfarnu ysgol gyfan ac adrannol a chynlluniau gwella dilynol.  Fodd bynnag, nid yw ychydig o gynlluniau datblygu adrannol yn cynnwys meini prawf llwyddiant digon penodol.

Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn tuag at fodloni’r rhan fwyaf o argymhellion yr arolygiad blaenorol.  Fodd bynnag, nid yw’r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd o ran gwella gweithdrefnau asesu.

Ceir ffocws cryf ar ddatblygu gwybodaeth a medrau addysgu athrawon ac mae mwyafrif yr athrawon wedi arsylwi ei gilydd o fewn eu hadrannau er mwyn rhannu arfer dda.  Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cymryd rhan frwd mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol werthfawr.  Mae nifer o’r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau megis codi safonau darllen ac ehangu’r ystod o arddulliau addysgu a ddefnyddir gan yr athrawon.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r berthynas waith agos gyda phartneriaid strategol wedi cael dylanwad cadarnhaol ar safonau dysgwyr ym meysydd medrau a lles.  Mae'r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill a’r coleg leol i ddarparu dewis eang o bynciau yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol.  Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar gyflawniad myfyrwyr yn y chweched dosbarth.  Ceir gweithdrefnau sicrhau ansawdd trwyadl ac mae’r cyd-lywodraethwyr yn cefnogi’r partneriaethau hyn yn effeithiol.

Cydweithia’r ysgol yn llwyddiannus gydag ystod o fusnesau lleol a sefydliadau cymunedol.  Mae hyn yn cynorthwyo datblygiad medrau personol y disgyblion ynghyd â’u hymwybyddiaeth o ofynion byd gwaith.

Mae'r berthynas gyda’r ysgolion cynradd partner yn gryf iawn a cheir cwricwlwm cydlynus ar draws cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.  Mae hyn yn cynorthwyo datblygiad medrau llythrennedd y disgyblion yn effeithiol.  Mae'r broses drosglwyddo yn sicrhau bod disgyblion ym Mlwyddyn 7 yn ymgartrefu yn yr ysgol yn gyflym.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol gyda rhieni a chynhalia’r ysgol ystod o gyfarfodydd defnyddiol er mwyn trafod cynnydd eu plant.  Gwna’r ysgol ddefnydd effeithiol o ddulliau cyfathrebu electronig i gyflwyno gwybodaeth ar ddatblygiadau a gweithgareddau.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae’r ysgol wedi‘i staffio’n briodol gydag arbenigwyr i addysgu’r cwricwlwm a gwneir defnydd effeithiol o gynorthwywyr dosbarth.  Rhoir cefnogaeth briodol i anwytho athrawon sydd newydd ymuno â’r ysgol.

Mae cynllun clir i ddatblygu adeiladau’r ysgol ac mae gwellianau amlwg wedi eu cyflawni dros y blynyddoedd diweddar gyda chefnogaeth yr Awdurdod Lleol. Rheolir cyllideb yr ysgol gan reolwraig fusnes yn effeithiol a golyga hyn fod sefyllfa ariannol yr ysgol yn iach. Mae’r chweched dosbarth yn gost effeithiol. Mae’r uwch dîm arwain a’r llywodraethwyr yn cadw trosolwg craff ar y gyllideb i sicrhau cefnogaeth i flaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae’r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion awdit sirol ac mae cyflenwad priodol o adnoddau dysgu ac addysgu o fewn mwyafrif o adrannau.

Yng ngoleuni’r safonau digonol, mae’r ysgol yn cyflawni gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r dangosydd pwnc craidd wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf ac yn 2012 yn gosod yr ysgol yn agos at gyfartaledd y teulu ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Eleni, mae perfformiad yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 wedi cryfhau ac yn gosod yr ysgol ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn chwarter meincnod uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Yn 2012, bu perfformiad mewn Saesneg a mathemateg yn agos at gyfartaledd y teulu ac ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Eleni mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd y teulu ac ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn y Gymraeg, a gwyddoniaeth yn well na chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn mathemateg a Saesneg ar y lefelau uwch, yn is na'r teulu ac ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2008, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, ynghyd â'r dangosydd pwnc craidd yn gyson uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru a chyfartaledd y teulu. Ar gyfer y ddau ddangosydd hyn, mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg rhwng 2008 a 2010. Fodd bynnag, bu cwymp yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd yn 2011 yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Serch hynny, mae'r perfformiad hwn ychydig yn uwch na disgwyliadau wedi'u modelu. Mae data heb ei wirio yn dangos cwymp eto yn y dangosydd hwn eleni.

Dros y pum mlynedd diwethaf, ceir patrwm amrywiol yn nhrothwy lefel 2. Yn 2011 ceir perfformiad sylweddol yn is na'r teulu gan osod yr ysgol yn y chwarter meincnod isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am y dangosydd hwn. Mae'r perfformiad hwn islaw disgwyliadau wedi'u modelu. Mae data heb ei wirio yn dangos cynnydd yn y dangosydd hwn eleni. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 yn gyson uwch na'r teulu dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2011, bu cwymp yn y dangosydd hwn gan osod yr ysgol yn y chwarter meincnod isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2011, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio islaw cyfartaleddau'r teulu a'r awdurdod lleol ac mae ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Hyd at 2010, mae perfformiad yn y Gymraeg ar lefel 2 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, bu gostyngiad sylweddol yn y perfformiad hwn yn 2011. Mae data heb ei wirio yn dangos gwelliant yn 2012.

Dros y pedair blynedd diwethaf mae perfformiad yn lefel 2 Saesneg yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu hyd at gwymp yn y canlyniadau yn 2011. Golyga hyn bod yr ysgol yn y chwarter gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae data heb ei wirio yn dangos cwymp sylweddol yn y dangosydd hwn eleni.

Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 wedi amrywio ers 2008, ac mae'n gyson yn uwch na'r teulu. Fodd bynnag, yn 2011, bu cwymp yn y dangosydd hwn gan osod yr ysgol yn yr hanner gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae data heb ei wirio yn dangos gostyngiad yn y dangosydd hwn eleni.

Mae gwyddoniaeth ar lefel 2 yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu hyd at gwymp sylweddol yn 2011. Gosoda'r perfformiad hwn yr ysgol yn is na'r teulu ac yn y chwarter meincnod gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae data heb ei wirio yn dangos gwelliant yn y dangosydd hwn eleni.

O gymharu â'u perfformiad mewn cyfnodau allweddol blaenorol, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd da yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio a'r trothwy lefel 2. Nid oes un disgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster yn y pedair blynedd diwethaf.

Yng Ngyfnod Allweddol 4,ar draws ystod o ddangosyddion, nid yw bechgyn yn cyflawni cystal ag yr ydyn nhw mewn ysgolion tebyg. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni yn unol â'u galluoedd. Fodd bynnag, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal ag ydyn nhw mewn ysgolion tebyg. Ni adawodd unrhyw ddisgybl yr ysgol heb gymhwyster yn y pedair blynedd diwethaf ac mae cyfran uchel yn aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed. Yn 2012, ni adroddwyd bod unrhyw ddisgyblion yr ysgol yn 16 oed ddim mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Yn y chweched dosbarth, mae disgyblion yn perfformio'n dda iawn ac yn 2011, llwyddodd pob un o ddisgyblion y chweched dosbarth i gyflawni trothwy lefel 3. Eleni, enillodd y rhan fwyaf o ddisgyblion Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae cyrhaeddiad disgyblion ar y sgôr pwyntiau ehangach sylweddol yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr

Ymatebodd 249 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur. Mae'r sampl hon yn cynrychioli ychydig dros chwarter o holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a bod ganddynt rywun i siarad gydag os ydynt yn poeni. Teimla llawer o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu am sut i gadw'n iach a dywed rhan fwyaf y disgyblion bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a'r rhan fwyaf bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn ei

ddysgu yn yr ysgol.  Mae mwyafrif o ddisgyblion yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda, a llawer yn meddwl bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.  Mae'r mwyafrif yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn a'r rhan fwyaf yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb.  Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn teimlo'u bod wedi derbyn cyngor da wrth ddewis cyrsiau.

Mae'r ymatebion hyn i gyd yn debyg,  neu'n fwy ffafriol nag ydyn nhw mewn ysgolion uwchradd eraill yng Nghymru.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 333 o holiaduron gan y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed bron pob rhiant fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu, eu trin yn deg a'u bod yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.  Mae'r rhan fwyaf hefyd yn teimlo bod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.  Mae llawer o'r rhieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn paratoi'u plentyn yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. Mae'r rhan fwyaf y rhieni yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae'r disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol.  Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn datgan bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.  Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn fwy cadarnhaol nag ydyn nhw mewn ysgolion eraill yng Nghymru.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ceri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Gwyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Alun Llwyd | Arolygydd Tîm |
| Jano Owen | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Hefina Thomas | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy’n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a’u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu’n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi’i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |